Meini Prawf Cymhwyster Llinell Gymorth 2023

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn defnyddio meini prawf cymhwysedd i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydyn ni'n cynnig tair lefel gwasanaeth, sy'n cael eu darparu yn unol ag amgylchiadau'r cleient:

Gwybodaeth

- Amlinelliad o faes perthnasol y broses gynllunio (megis ceisiadau cynllunio, datblygiadau neu weithdrefnau apelio).
- Cyfeirio at lenyddiaeth canllaw sy'n esbonio gweithdrefnau'n fanylach.
- Amlinelliad o hawliau o fewn y system gynllunio.
- Cyfeirio at sefydliadau all fod yn gallu darparu cymorth pellach.
- Cyfeirio at ffynonellau sy'n darparu rhestrau o ymgynghorwyr cynllunio.

Cyngor

- Yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu dan 'Gwybodaeth'.
- Gwybodaeth sylfaenol briodol.
- Gwybodaeth fanwl ar agweddau penodol o'r system gynllunio.
- Ymchwil sylfaenol a chyfeirio at bolisïau neu achosion perthnasol, yn cynnwys cyfarwyddyd ar sut i'w defnyddio'n fwyaf effeithiol.
- Cyngor i gleientiaid ar sut i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â materion cynllunio ac i fynd drwy'r system gynllunio.
- Cyngor ar sut i ddatblygu dadleuon i gefnogi achos cleient.

Cefnogaeth

- Yn ogystal â'r wybodaeth a'r cyngor uchod.
- Gwybodaeth a chyngor parhaus am holl gyfnod yr achos penodol.
- Darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau.
- Cyngor ac arweiniad ar gynrychiolaeth a chyswllt gyda phartïon cysylltiedig.
- Cyngor ac arweiniad ar baratoi a chwblhau gohebiaeth a ffurflenni fel sy'n briodol.
- Cyngor ac arweiniad ar baratoi ymatebion i ymgynghoriadau, ceisiadau cynllunio neu i baratoi astudiaethau dichonolrwydd / ymchwil arall yn ôl y galw.

Dylech nodi nad yw gwasanaethau Llinell Gymorth Cymorth Cynllunio Cymru yn caniatáu i ni lobïo penderfynwr ar eich rhan.

Meini Prawf Cymhwyster Llinell Gymorth 2023

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Pa wasanaethau ydw i'n gymwys i'w derbyn?



Lefel 1 (Gwybodaeth)

- Gallai tirfeddianwyr domestig gael eu newid i fod yn ddeiliaid tai.
- Pobl sydd heb wybod am y system gynllunio ac a fyddai'n hoffi cymryd rhan.

Lefel 2 (Cyngor)

- Trydydd partïon sydd eisiau mynegi barn ar gais cynllunio neu fater yn ymwneud â chynllun datblygu.
- Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

Lefel 3 (Cefnogaeth)

- Pobl sydd eisiau ymgysylltu â'r system gynllunio allai fod yn destun rhagfarn andwyol oherwydd oedran, hil, cenedligrwydd, iaith, materion dysgu neu lythrennedd, anabledd, rhywedd, rhywioldeb neu gefndir cymdeithasol.
- Grwpiau cymunedol a gwirfoddol.
- Unrhyw un sy'n methu ymgysylltu â'r system gynllunio oherwydd rhwystrau dysgu neu iaith.

Mwy am ein meini prawf cymhwyster

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Fedrwn ni ddim helpu'r canlynol

- Ymgynghorwyr cynllunio, penseiri, tirfesuryddion, asiantau, ac ati.
- Busnesau masnachol. .
- Unigolion neu grwpiau sydd mewn sefyllfa i wneud elw o ddatblygiad ac eithrio datblygiadau deiliaid tai.
- Pobl â digon o incwm gwario i gyflogi ymgynghorydd cynllunio.
- Bydd unrhyw un nad yw'n gymwys i dderbyn gwasanaethau PAW yn cael eu cyfeirio at restr o ymgynghorwyr cynllunio sydd wedi'u hardystio gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, neu at Ienyddiaeth canllaw perthnasol am gymorth pellach.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Cafodd y meini prawf cymhwyster presennol eu mabwysiadu ym mis Mawrth 2023 gan ddisodli meini prawf cymhwyster blaenorol.
- Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cadw'r hawl i amrywio'r lefel o gefnogaeth sy'n cael ei chynnig yn unol â'n hasesiad o amgylchiadau unigol cleient.
- Gall cleientiaid sy'n teimlo bod staff neu wirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru wedi camfarnu eu cymhwyster wneud apêl i'r Prif Weithredwr.

Cysylltwch â ni

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y mae Cymorth Cynllunio Cymru yn eu darparu neu am ein meini prawf cymhwyster, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Ffôn: 02920 625 004 (swyddfa)
E-bost: info@planningaidwales.org.uk
Gwefan: www.planningaidwales.org.uk

Cyfeiriad Post:
Cymorth Cynllunio Cymru,
12 Heol y Gadeirlan
Caerdydd,
CF11 9LJ

Llinell Gymorth Cymorth Cynllunio Cymru: 02920 625 000